

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 16 Mehefin 2022

STATWS: GWEITHREDU / GWYBODAETH

CATEGORI: POLISI

Teitl: Cynllun Gweithredu Clefydau Prin Cymru 2022-2026

Dyddiad dod i ben / Adolygu: 31 Rhagfyr 2026

I'w weithredu gan:

Bob bwrdd Iechyd

Angen gweithredu erbyn: (dyddiad)

Parhaus

Anfonwr: Syr Frank Atherton, Y Prif Swyddog Meddygol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru:

Caroline Lewis, Uwch-reolwr Polisi Cyflyrau Iechyd Difrifol, Nyrsio ac Ansawdd, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays CF10 3NQ. Rhif Ffôn: 03000 258953. E-bost: Caroline.Lewis@llyw.cymru

Dogfen(nau) amgaeedig: Dim

Cynllun Gweithredu Clefydau Prin Cymru 2022-2026

Trosolwg

Pwrpas y Cylchlythyr Iechyd Cymru hwn yw tynnu sylw at gyhoeddi Cynllun Gweithredu Clefydau Prin Cymru (2022-2026).

Gweithredu

Disgwylir i Fyrddau Iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG, pan fo'n briodol, weithio gyda Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, y Grŵp Gweithredu Clefydau Prin (RDIG), y trydydd sector a sefydliadau perthnasol eraill i hwyluso a gweithredu'r blaenoriaethau a'r camau a amlinellwyd yng Nghynllun Gweithredu Clefydau Prin Cymru.

Dylai byrddau iechyd ystyried y blaenoriaethau ar gyfer clefydau prin wrth gynllunio eu gwasanaethau a datblygu eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig.

Cynllun Gweithredu Clefydau Prin Cymru

Mae Cynllun Gweithredu Clefydau Prin Cymru 2022-2026 ar gael yn y dolenni canlynol:

Cymraeg <https://cydweithrediad.gig.cymru/grwpiau-gweithredu/clefydau-prin/>

Saesneg <https://collaborative.nhs.wales/implementation-groups/rare-diseases/>

I ddangos ymrwymiad parhaus i'r gymuned clefydau prin, mae llywodraethau pedair gwlad y DU wedi cydweithio i ddylunio Fframwaith Clefydau Prin y DU newydd (Ionawr 2021) sy'n nodi pedair blaenoriaeth allweddol ar gyfer gwella ansawdd gofal a'r gofal sydd ar gael, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, a gwella bywydau pobl sy'n byw gyda chlefydau prin.

Y pedair blaenoriaeth allweddol yw:

- Blaenoriaeth 1 – Helpu cleifion i gael diagnosis terfynol yn gyflymach
- Blaenoriaeth 2 – Cynyddu ymwybyddiaeth o glefydau prin ymysg gweithwyr gofal iechyd proffesiynol
- Blaenoriaeth 3 – Gwella amodau gofal
- Blaenoriaeth 4 – Gwella mynediad at ofal arbenigol, triniaeth a chyffuriau

Fel rhan o Fframwaith y DU, mae RDIG wedi datblygu cynllun gweithredu sy'n canolbwyntio ar Gymru. Mae RDIG wedi dod â rhanddeiliaid, byrddau iechyd, y trydydd sector a chynrychiolwyr cleifion ynghyd i gyfrannu at ddatblygu'r cynllun.

Yng Nghynllun Gweithredu Clefydau Prin Cymru, amlinellir pob blaenoriaeth gyda gwybodaeth gefndir, camau gweithredu, rhanddeiliaid/partneriaid cyflawni, llinellau amser a mesurau canlyniadau.

Datblygwyd y cynllun yn ystod pandemig COVID-19 ac mae angen darparu gwasanaethau'r GIG mewn ffordd wahanol o hyd mewn ymateb i'r pandemig. Mae

hefyd angen mynd i'r afael â'r niwed i'r system a achoswyd gan COVID-19. Mae mynediad at gymorth, gwybodaeth, gofal a thriniaethau wedi dod yn fwy anodd oherwydd effeithiau'r pandemig a tharfu ar wasanaethau yn sgil cynnydd mewn rhestrau aros ac oedi o ran gwneud diagnosis.

Dros oes y cynllun gweithredu, bydd RDIG yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd i oruchwylio ac adrodd ar gynnydd o ran camau gweithredu yn ogystal ag adolygu'r broses yn gyson. Bydd yn darparu llwyfan ar gyfer mesur llwyddiant y cynllun yn wrthrychol. Bydd RDIG a phartneriaid yn gweithio gyda phedair llywodraeth y DU a grwpiau cyfatebol eraill i sicrhau bod yr arferion gorau yn cael eu hystyried ar gyfer gweithredu'r cynllun yng Nghymru. Bydd RDIG hefyd yn gweithio gyda byrddau iechyd a sefydliadau partner fel mecanwaith ar gyfer datblygu a goruchwylio cynnydd cynllun gweithredu Cymru.

Bydd unrhyw newidiadau i Gynllun Gweithredu Clefydau Prin Cymru yn cael eu hystyried yn flynyddol a bydd nifer o ddatblygiadau yn amodol ar gytuno ar yr adnoddau sydd ar gael ac achosion busnes parhaus a llwyddiannus.